

Canllawiau Cwblhau'r Cofnod Ymchwilio i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5 (A)

Cyflwyniad

Bwriad y nodiadau yma yw helpu i gwblhau'r cofnod 'Ymchwilio i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed' diwygiedig - HS5(A)

Mae'r adroddiad yn galluogi gweithiwr i roi gwybod am bob math o ddigwyddiadau/damweiniau, o'r anaf mwyaf mân (neu osgoi un o drwch blewyn), i anaf difrifol, damwain sy'n achosi absenoldeb, neu ddigwyddiad peryglus.

Drwy gofnodi'n dda ac ymchwilio systematig, bydd y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol, nodi proffiliau risg, arsylwi ar dueddiadau mewn anafiadau a darparu sail ar gyfer cynllunio diogelwch.

Sut i lenwi'r Cofnod Ymchwilio i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed

Uwchadran/Adran

Cofnodwch enw'r uwchadran/adran e.e. Addysg a Dysgu Gydol Oes – Cynnal a Gwella Ysgolion.

Adeilad/Safle

Cofnodwch enw'r adeilad lle mae'r person yn gweithio, e.e. enw'r ysgol, y cartref henoed, enw'r safle ac ati.

Rhan A:

Oherwydd mai cofnod cyfreithiol y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r rhan yma, bydd angen arnoch chi gopiâu ar gyfer y canlynol:-

- (i) yr unigolyn;
- (ii) ffeil bersonol yr unigolyn;
- (iii) ffeil ddamweiniau'r adran;
- (iv) isadran adnoddau dynol

Bwriad y rhan yma hefyd yw cadw hawl gweithiwr neu berson arall i gyflwyno adroddiad am ddigwyddiad/damwain neu anaf. Gall y rhan yma gael ei llenwi gan yr unigolyn dan sylw, gan berson enwebedig, neu'r person sy'n derbyn yr adroddiad, e.e. dros y ffôn.

1. **Enw a Chyfeiriad Cartref:** Cofnodwch enw a chyfeiriad llawn y person a gafodd ei effeithio yn y digwyddiad/damwain. Mae'r bloc yma'n cael ei ddefnyddio i gofnodi rhif staff, rhif ffôn gwaith a rhif ffôn cartref y person hwnnw hefyd.
2. **Oedran:** Cofnodwch oedran y person ar ei ben-blwydd diwethaf.
3. **Rhyw:** Ticiwch y blwch priodol i nodi rhyw'r person.
4. **Swydd neu Statws:** Cofnodwch alwedigaeth neu statws y person, e.e. athro, disgybl, myfyriwr, cynorthwydd y cartref, preswlydd, paentiwr, plymwr, aelod o'r cyhoedd, cleient, ac ati.
5. **Uned / Ardal Gwaith:** Cofnodwch weithle arferol neu gartref y person dan sylw.

6. **Dyddiad ac Amser y Digwyddiad:** Cofnodwch ddyddiad ac amser y ddamwain, e.e. 26.05.96 – 14.30.

7. **Dyddiad ac Amser Rhoi Gwybod:** Cofnodwch ddyddiad ac amser y cofnodi, e.e. 27.05.96 – 09.00.

Dalier Sylw: Dylech chi ddefnyddio'r system cloc 24 awr wrth gofnodi'r amser.

8. **Disgrifiad byr o'r Digwyddiad/Damwain:** Rhowch ddisgrifiad o'r Digwyddiad/Damwain yng ngeiriau'r person ei hunan. Mae'r gweithiwr dan sylw â hawl gyfreithiol i ddisgrifio'r digwyddiad/damwain fel y gwelodd ef/hi (Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975). Dydy'r rhan yma ddim yn cael ei defnyddio i gofnodi ymchwiliad.

9. **Union Safle'r Digwyddiad/Damwain:** Cofnodwch union leoliad y digwyddiad/damwain, e.e. yn yr ystafell ddosbarth ger y ffenestr, yn ystafell fyw cartref y cleient, yn y gwaith cloddio, y tu allan i Boots y Fferyllydd, ac ati.

10. **Enwau a Chyfeiriadau Tystion:** Cofnodwch enw a chyfeiriad unrhyw berson neu bersonau a welodd y digwyddiad/damwain, neu a all ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag achos neu achosion y digwyddiad/damwain. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n argymhell y dylid cymryd datganiadau anffurfiol gan y personau hynny sydd wedi'u henwi.

11. **Niwed - byddwch yn fanwl:** Lle mae anaf wedi digwydd, cofnodwch y math o anaf, a rhan y corff a gafodd ei heffeithio, e.e. pen-glin chwith wedi'i chleisio, briw ar fys cyntaf y llaw chwith, ewin wedi'i hollti ar fys mawr y droed dde, llwch yn y llygad chwith. Nodyn: Dydy 'wedi brifo'i gefn' neu 'ergyd i'r pen' ddim yn ddigon manwl.

Ar rai achlysuron, fydd manylion yr anaf ddim yn cael eu hysbysu hyd nes y bydd cyngor meddygol yn cael ei ddarparu. Ar yr achlysuron yma, gall yr wybodaeth gael ei hychwanegu yn ddiweddarach.

12. **Manylion Cymorth Cyntaf a chan bwy:** Cofnodwch y driniaeth a ddarparodd y swyddog cymorth cyntaf cymwys (lle y bo ar gael), e.e. cafodd y clwyfau eu harchwilio a'u glanhau; cafodd bys cyntaf y llaw dde ei rwymo, ac ati.

13. **Cwmpo o Uchder:** Gyda digwyddiadau/damweiniau lle mae person wedi cwmpo o lefel sy'n uwch na'r llawr, cofnodwch yr uchder mae'r person wedi cwmpo ohono. Dylech chi fesur o bwynt cyswllt y corff, h.y. y traed os oedd y person yn sefyll neu'r pengliniau os oedd yn penlinio, i lefel y llawr lle glaniodd y person.

14. **Pwy gafodd wybod am y digwyddiad?** Cofnodwch alwedigaeth neu statws y person a gafodd wybod am y ddamwain, e.e. goruchwyliwr, rheolwr llinell.

15. **Llofnod y sawl sy wedi cael niwed (neu berson enwebedig):** Dylai'r llofnod gael ei roi yn y rhan yma.

16. **Enw'r sawl sy'n cofnodi'r manylion:** Cofnodwch enw'r person sy'n llenwi'r rhan yma.

Rhan B:

Adroddiad y Rheolwr/Goruchwyliwr

Mae'r rhan yma'n galluogi'r Cyngor i fodloni ei ddyletswydd statudol i ymchwilio i ddigwyddiadau/damweiniau sy'n cael eu hadrodd, a chanfod y rhesymau.

Bydd adnabod gweithredoedd neu amodau anniogel yn galluogi rheolwyr i gymryd camau adferol priodol i'w hatal rhag digwydd eto. Os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â damwain adroddadwy, cyfeiriwch at ddatganiad Polisi'r Cyngor HS5 (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus – RIDDOR).

17. **Adroddiad ar yr Ymchwiliad:** Cofnodwch fanylion yr ymchwiliad. Mae modd parhau'r rhan yma ar ddalen arall, a lle bo'n briodol, gall sgetsh, darlun neu ffotograffau gael eu cynnwys.
18. **Camau Gweithredu i Atal y Ddamwain rhag digwydd eto:** Cofnodwch y camau a gymerwyd yn seiliedig ar achosion y ddamwain a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad.
19. **Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r camau:** Cofnodwch enw'r person sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau unioni a nodwyd yn Eitem 18 yn cael eu cynnal.
20. **Peiriannau:** Ticiwch y blychau priodol i gofnodi a oedd peiriant ynglŷn â'r digwyddiad/damwain.

(Diffiniad peiriant yn BS5304 yw 'offer ar gyfer rhoi pŵer sydd â rhannau sefydlog a symudol, a phob un â swyddogaeth bendant).
21. **Peiriannau - parhad:** Os oes tic yn y blwch 'Oedd' – bydd yr enw a'r math o beiriant gael eu cofnodi yma, e.e. A. Smith bandsaw – rhif cyfresol 02364.
22. **Peiriannau - parhad:** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a oedd y peiriant yn symud ar adeg y digwyddiad/damwain.
23. **Cyfarpar Diogelu** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a gafodd cyfarpar diogelu ei roi i'r person a gafodd ei anafu.
24. **Cyfarpar Diogelu - parhad** Os oes tic yn y blwch 'Do', cofnodwch fanylion y cyfarpar diogelu yma, e.e. 'Wellington boots', menig, goggles, helmedi diogelwch ac ati.

Mae diffiniad llawn o Gyfarpar Diogelu yn Natganiad Polisi'r Cyngor HS2 – Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).
25. **Beth wnaeth y sawl gafodd niwed?** Mae hyn yn ymwneud â'r hyn a ddigwyddodd i'r person a anafwyd, yn syth ar ôl y digwyddiad. Dylech chi ateb yn briodol drwy roi llinell trwy 'Do' neu 'Naddo'.
26. **Oedd y gwaith wedi cael ei awdurdodi?** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a oedd y gwaith wedi cael ei awdurdodi.
27. **Nifer y diwrnodau gafodd eu colli:** Cofnodwch nifer y diwrnodau a gafodd eu colli drwy lenwi'r rhan yma.
- 28(a) **Oriau Gwaith Arferol:** Cofnodwch yr oriau y byddai disgwyl i'r person weithio ar ddiwrnod y digwyddiad/damwain.
- 28(b) **Union amser stopiodd y sawl gafodd niwed weithio:** Cofnodwch union amser y gadawodd y person y gwaith ar ôl y digwyddiad/damwain.
29. **Llofnod y swyddog archwilio:** Dylai'r person sy'n ymchwilio i'r digwyddiad/damwain lofnodi'i enw yn yr rhan yma. Rhaid cofnodi'r dyddiad hefyd.
30. **Llofnod y rheolwr/goruchwyliwr:** Dylai'r rheolwr/person sy'n goruchwyllo gweithgareddau'r person a gafodd ei effeithio yn y digwyddiad/damwain, lofnodi'i enw yn yr rhan yma. Rhaid cofnodi'r dyddiad hefyd.

Rhan C

Ar gyfer defnydd swyddfa yn unig

Mae'r rhan yma ar gyfer defnydd y personau hynny sydd â chyfrifoldeb am gynnal trefniadau'r Cyngor ar gyfer cofnodi digwyddiadau/damweiniau, a sicrhau bod yr asiantaethau allanol (e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – HSE) wedi cael eu hysbysu.